

Magnox Socio-economic funding in the community

2020/21 Socio-economic scheme update

The new scheme is now open for applications under the 'One NDA' Grant System. This aligns the process and consistency across the NDA estate. The format for grants remains the same with funding of up to £1,000 (Good Neighbour level), while larger requests, and those for multi-year funding, of up to £200,000 are expected to comply with a range of criteria aimed at creating resilient economies, thriving communities, sustainable incomes and growth for our communities.

For more information, or if you know a group who could benefit then please visit <https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities>.

You will also find a copy of the Magnox Socio-economic Plan 2016-21 (Interim) and 2019-20 infographic here.

Magnox and the NDA announced a £25,000 cash boost to help support vulnerable groups on Anglesey with COVID-19 related activities.

The funding formed part of the 12 grants, worth £300,000 in total, Magnox made available to local authorities located near a Magnox site.

Gwen Parry-Jones, Magnox Chief Executive, said:

“Many community groups are carrying out positive work, supporting the most vulnerable in their areas. This work is vital, and a key part of Magnox’s response to COVID-19 is to help other organisations deal with the pandemic wherever we can.

In this time of national crisis, Magnox has agreed with the NDA that we should make available up to £25,000 at each site from the Magnox Socio-economic Scheme for use by local community groups on COVID-19 related activities. Magnox is committed to assisting the communities surrounding our sites, as our communities have supported us for over 50 years, and we hope this funding will go some way to supporting the essential work being delivered.”

The money was granted to Isle of Anglesey County Council to support the community during the coronavirus pandemic. Two 3D printers were purchased for Ysgol Syr Thomas Jones to make protective visors for key workers and volunteers, these can be put to future use in the the school for years to come.



Royal Mail key workers in Llangefni were one of many organisations who received visors produced by the school.

Funding was also invested into provisions for Amlwch Foodbank and the 'Neges' food distribution project. Gordon Warren wrote on behalf of Amlwch Food Bank to thank Magnox for their generous donation saying "Your support will make a real difference to those in need in our community."



Magnox staff member Sion Griffiths volunteered for Amlwch Foodbank

Aled Morris Jones, Chair of Wylfa's Site Stakeholder Group and Councillor for the Twrcelyn Ward said: "What Magnox and the NDA have done to support communities, financially and through provision of equipment, is very generous. That staff have given of their time to volunteer to assist in their communities is inspirational. It shows the nuclear family coming together to support each other. We will beat this virus together and we will all meet again in happier times."

Anglesey County Council Leader and Talybolion county councillor, Llinos Medi, also added: "We're extremely grateful to Magnox and the NDA for this funding which will help support vulnerable residents and communities across north Anglesey during these unprecedented and difficult times."

"The funding will, of course, be put to good use as we work with community partners and volunteers to ensure local communities are as resilient as possible in light of this terrible Coronavirus pandemic."

The 'Neges' project - Dylan's restaurant and Menter Môn, with the support of other agencies, established a food delivery service to ensure the most vulnerable people in our communities were fed, delivering food parcels across Anglesey and Gwynedd. The local authorities identified vulnerable families and individuals who could benefit from the support.



'Neges' also provided meals for Ysbyty Gwynedd staff who were unable to access the canteen due to the COVID-19 restrictions.

Dafydd Gruffydd, Managing Director of Menter Môn, explained:

"We had been exploring how we could deliver food but had struggled to identify a suitable partner. When Dylan's approached us it all clicked into place. We at Menter Môn coordinated referrals and paid for the ingredients with funding support from Magnox and Dylan's prepared the food parcels and distributed them."

Within seven weeks, 3,479 individuals had benefitted from the scheme, with 1,554 food parcels delivered.

You may have also noticed some posts on social media, acknowledging Magnox for activity packs that were also distributed to families in the local parishes and well received via Isle of Anglesey County Council as part of the COVID-19 support, ensuring mental health and wellbeing.



Just wanted to say a big thank you to Magnox/Anglesey county council for our outdoor activity pack that we received today! Kids are made up! 🥰

Thank you so much Magnox and all involved. The kids are loving the outdoor toys. Mummy is well and truly soaked from the water pistol fight, but she hasn't laughed so much in ages!!!!

Multi year Socio-economic funded projects update:

Môn Communities First (Môn CF) received approval from the Magnox Executive for the final £100,000 tranche of funding for the third year to continue with the successful delivery of the Training Academy. The Magnox funding has safeguarded the Delivery Manager and Training Team Coordinator roles annually for the last three years.

Last year, 566 individuals were supported through the employment team services and 807 training opportunities were undertaken through the scheme. Six participants passed their practical driving test, which is part of the previously Magnox funded Journey to Work Programme.

Since the lockdown, Môn CF has worked with their accrediting bodies to enable the delivery of distance learning via Zoom. This service went



" Môn CF helped me pass my driving test and get my dream job."
Melissa Webb

How can we help YOU?

f t i s



live on 1 June and within a week 42 individual courses were booked. Môn CF is the only organisation on Anglesey able to deliver “Fully Accredited” distance learning.

STEM Gogledd Project also received approval for the next tranche of funding. The programme which aims to inspire, promote and support STEM education amongst 11 – 19 year olds was given a further £50,250 to continue the third year. The project is progressing well with 17 schools now engaged. The three mentors covering Anglesey, Gwynedd and Conwy have built up a good working relationship with the schools, local employers and organisations and held over 40 successful events to date. Unfortunately the event arranged at Trawsfynydd site on 13 March was cancelled due to the COVID-19 pandemic lockdown.



Innovative Young People’s event was held at M-Sparc in Gaerwen.

The team have also been proactive and set up online virtual events using Zoom and 1:1 sessions with students. They worked on eight topics during the lockdown, with follow on activities that children could carry out at home. As part of ‘Energy & Environment’ week Ffion Morris, Head of Maintenance at Wylfa, was asked to take part in a short Q&A session.



Ffion Morris taking part in an online Q&A session with STEM Gogledd.

If you need any further information, please contact:

For applications up to £1,000 –
Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Tel. 07738 694660

Or for applications over £1,000 –
Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Tel. 07850 92166

Cyllid economaidd-gymdeithasol Magnox yn y gymuned

Diweddariad cynllun economaidd-gymdeithasol 2020/21

Mae'r cynllun newydd bellach ar agor i geisiadau o dan y System Grantiau 'Un NDA'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r broses a'r cysondeb ar draws ystâd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Mae'r fformat ar gyfer y grantiau yn aros yr un peth gyda chyllid o hyd at £1,000 (lefel Cymydog Da) tra bod disgwyl i geisiadau mwy, a'r rhai sy'n gofyn am gyllid ar gyfer sawl blwyddyn, o hyd at £200,000, gydymffurfio ag ystod o feini prawf sydd wedi'u hanelu at greu economïau cydnerth, cymunedau ffyniannus, incymau cynaliadwy a thwf ar gyfer ein cymunedau.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych yn gwybod am grŵp a allai elwa, ewch i <https://www.gov.uk/government/collections/magnox-working-with-our-communities>.

Gallwch hefyd weld copi o Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox 2016-21 (Interim) a ffeithlun 2019-20 fan hyn.

Magnox a'r NDA yn cyhoeddi hwb ariannol o £25,000 i helpu i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed ar Ynys Môn gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y cyllid yn rhan o 12 grant, gwerth £300,000 i gyd, a roddodd Magnox i awdurdodau lleol sydd wedi'u lleoli gerllaw safle Magnox.

Dywedodd Gwen Parry-Jones, Prif Weithredwraig Magnox:

"Mae nifer o grwpiau cymunedol yn gwneud gwaith positif, gan gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn eu hardaloedd. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol, a rhan allweddol o ymateb Magnox i COVID-19 yw helpu mudiadau eraill i ddelio â'r pandemig lle bynnag y gallwn.

Yn y cyfnod hwn o argyfwng cenedlaethol, mae Magnox wedi cytuno gyda'r NDA y dylid sicrhau bod hyd at £25,000 ar gael ym mhob safle o Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox i'w ddefnyddio gan grwpiau cymunedol lleol ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae Magnox wedi ymrwmo i gynorthwyo'r cymunedau o amgylch ein safleoedd, gan fod ein cymunedau wedi ein cefnogi ni ers dros 50 mlynedd, a gobeithiwn y bydd y cyllid hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gefnogi'r gwaith hanfodol sy'n cael ei gyflawni."

Dyfarwyd yr arian i Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi'r gymuned yn ystod pandemig y coronafeirws. Prynwyd dau beiriant argraffu 3D ar gyfer Ysgol Syr Thomas Jones i wneud feisorau diogelu i weithwyr allweddol a gwirfoddolwyr, a gall y rhain gael eu defnyddio yn yr ysgol am flynyddoedd i ddod.



Roedd gweithwyr allweddol y Post Brenhinol yn Llangefni ymhlith nifer o fudiadau a dderbyniodd feisorau a gynhyrchwyd gan yr ysgol.

Buddsoddwyd cyllid hefyd ym Manc Bwyd Amlwch a'r prosiect dosbarthu bwyd 'Neges'. Ysgrifennodd Gordon Warren ar ran Banc Bwyd Amlwch i ddiolch i Magnox am eu haelioni, gan ddweud "bydd eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'r rheini mewn angen yn ein cymuned."



Aelod o staff Magnox Sion Griffiths yn gwirfoddoli gyda Banc Bwyd Amlwch

Dywedodd Aled Morris Jones, Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a Chynghorydd Ward Twrcelyn: "Mae'r hyn y mae Magnox a'r NDA wedi'i wneud i gefnogi cymunedau, yn ariannol a thrwy ddarparu offer, yn hael iawn. Mae'r ffaith bod staff wedi rhoi o'u hamser i wirfoddoli i gynorthwyo yn eu cymunedau yn ysbrydoledig. Mae'n dangos bod y teulu niwclear yn dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd. Fe wnawn ni drechu'r feirws yma gyda'n gilydd a chawn ni gyd gwrdd unwaith eto ar adeg hapusach."

Ychwanegodd Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn a chynghorydd sir Talybolion, Llinos Medi: "Ry'n ni'n hynod o ddiolchgar i Magnox a'r NDA am yr arian hwn a fydd yn helpu i gefnogi trigolion a chymunedau sy'n agored i niwed ar draws gogledd Ynys Môn yn ystod y cyfnod anodd a digynsail hwn."

"Bydd yr arian, wrth gwrs, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol wrth i ni weithio gyda phartneriaid cymunedol a gwirfoddolwyr i sicrhau bod cymunedau lleol mor gydnherth â phosibl yng ngoleuni'r pandemig coronafeirws dychrynlyd yma."

Sefydlodd y prosiect 'Neges' – bwyty Dylan's a Menter Môn, gyda chefnogaeth asiantaethau eraill, wasanaeth cludo bwyd i sicrhau bod y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau yn cael eu bwydo, drwy gludo parseli bwyd ar draws Môn a Gwynedd. Nododd yr awdurdodau lleol deuluoedd ac unigolion oedd yn agored i niwed a allai elwa o'r gefnogaeth.



Darparodd 'Neges' hefyd brydau bwyd i staff Ysbyty Gwynedd gan nad oedd mynediad i'r ffreutur oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Eglurodd Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn:

"Fe fuon ni'n archwilio sut y gallem ddsbarthu bwyd, ond cafwyd trafferth canfod partner addas. Pan ddaeth Dylan's atom ni – fe wnaeth popeth ddisgyn i'w le. Fe wnaethon ni yn Menter Môn gydlynu atgyfeiriadau a thalu am y cynhwysion gyda chymorth cyllid Magnox ac fe wnaeth Dylan's baratoi'r parseli bwyd a'u dosbarthu".

O fewn saith wythnos, roedd 3,479 o unigolion wedi elwa o'r cynllun, gyda 1,554 o barseli bwyd yn cael eu dosbarthu.

Efallai i chi sylwi ar rai lluniau ar gyfryngau cymdeithasol, yn cydnabod Magnox am y pecynnau gweithgareddau poblogaidd a ddosbarthwyd i deuluoedd mewn plwyfi lleol drwy Gyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r cymorth COVID-19, i sicrhau iechyd meddwl a lles.



Diolch Cyngor Sir Ynys Môn a Magnox 🌟🌈



Just wanted to say a big thank you to Magnox/Anglesey county council for our outdoor activity pack that we received today! Kids are made up! 🥰

Thank you so much Magnox and all involved. The kids are loving the outdoor toys. Mummy is well and truly soaked from the water pistol fight, but she hasn't laughed so much in ages!!!!

Diweddariad aml-flwyddyn ar brosiectau economaidd-gymdeithasol a ariennir:

Derbyniodd **Cymunedau yn Gyntaf Môn** gymeradwyaeth wrth Reolwyr Magnox am gyfran o £100,000 o gyllid am y drydedd flwyddyn i barhau â'r broses o ddarparu'r Academi Hyfforddi yn llwyddiannus. Mae cyllid Magnox wedi diogelu swyddi Rheolwr Cyflawni a Chydlynwyr Tîm Hyfforddi bob blwyddyn ers y dair blynedd diwethaf.

Y llynedd, cefnogwyd 566 o unigolion drwy wasanaethau'r tîm cyflogaeth a chafwyd 807 o gyfleoedd hyfforddi drwy'r cynllun. Pasiodd chwech o bobl eu prawf gyrru ymarferol, sy'n rhan o'r Rhaglen Taith i'r Gwaith a ariannwyd gan Magnox yn y gorffennol.

Ers y cyfnod clo, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithio gyda'u cyrff achredu i alluogi cyflwyno dysgu o bell drwy Zoom. Aeth y gwasanaeth hwn yn fyw ar 1 Mehefin, ac o fewn wythnos, roedd 42 o gyrsiau unigol wedi'u harchebu. Cymunedau yn Gyntaf Môn yw'r unig fudiad ar Ynys Môn sy'n gallu cyflwyno dysgu o bell sydd wedi'i "achredu'n llawn".



" Môn CF helped me pass my driving test and get my dream job."

Melissa Webb

How can we help YOU?



yma i helpu
Môn CF
here to help

Derbyniodd **Prosiect STEM Gogledd** gymeradwyaeth hefyd ar gyfer y gyfran nesaf o gyllid. Derbyniodd y rhaglen, sy'n anelu at ysbrydoli, hyrwyddo a chefnogi addysg STEM ymhlith pobl ifanc 11 – 19 oed, £50,250 ychwanegol i barhau â'r drydedd flwyddyn. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda gyda 17 o ysgolion bellach wedi ymgysylltu â'r cynllun. Mae'r tri mentor sy'n cwmpasu Ynys Môn Gwynedd a Chonwy wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r ysgolion, cyflogwyr lleol a mudiadau a chynhaliwyd dros 40 o ddiwyddiadau llwyddiannus hyd yma. Yn anffodus, cafodd y digwyddiad ar safle Trawsfynydd ar 13 Mawrth ei ganslo oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19.



Cynhaliwyd digwyddiad Pobl Ifanc Arloesol yn M-Sparc, Gaerwen.

Mae'r tîm hefyd wedi bod wrthi'n trefnu digwyddiadau rhithwir ar-lein drwy ddefnyddio Zoom a sesiynau 1:1 gyda myfyrwyr. Maen nhw wedi gweithio ar wyth pwnc yn ystod y cyfnod clo, gyda gweithgareddau ategol y gallai plant eu gwneud gartref. Fel rhan o wythnos 'Ynni a'r Amgylchedd', gofynnwyd i Ffion Morris, Pennaeth Cynnal a Chadw Wylfa, gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb byr.



Ffion Morris yn cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb ar-lein gyda STEM Gogledd.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â:

Am geisiadau hyd at £1,000 –

Michelle Humphreys, michelle.humphreys@magnoxsites.com, Ffôn. 07738 694660

Neu am geisiadau dros £1,000 – Mair Jones, mair.jones@magnoxsites.com, Ffôn. 07850 92166